# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Dosbarthu 2 – Ffilm fasnachfraint Brydeinig a'r defnydd o hys-bys

### Tasg agoriadol

**Fel rydym ni wedi ei weld gyda'r rhaghysbyseb a'r hysbyseb teledu, mae *The World's End* wedi cael ei gwerthu fel y rhan derfynol mewn cyfres o dair ffilm gan y cyfarwyddwr Edgar Wright, gyda'r sêr Simon Pegg a Nick Frost. Mae'r gyfres wedi cael ei galw yn Gyfres Cornetto.**

- **Pa fanteision sydd i ddosbarthwyr ac arddangoswyr wrth werthu'r ffilm yn y ffordd hon?**
- **A yw'n bosibl cael ffilm fasnachfraint Brydeinig?**

# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):

## Dosbarthu 2 – Ffilm fasnachfraint Brydeinig a'r defnydd o hys-bys

## Edrych ar hys-bys (plugs)

Mae **rhoi hys-bys** yn rhan bwysig o werthu ffilm i gynulleidfa. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys rhoi cyfweliadau mewn amrywiaeth o gyfryngau. Edrychwch ar yr hys-bys cyntaf hwn ar wefan *The Guardian* a gwnewch nodiadau. Mae'n gyfweliad byr rhwng y newyddiadurwr ffilmiau Xan Brooks a Wright, Pegg a Frost.

Gwylio'r cyfweliad.

- Pwy sy'n debygol o wylio'r cyfweliad byr hwn?
- Pa wybodaeth ychwanegol rydych chi'n ei chael yma am y ffilm?
- A yw'r wybodaeth hon yn debygol o fod o ddiddordeb i brif gynulleidfa'r ffilm neu i gynulleidfa eilaidd y ffilm?

Mae'r ail hys-bys o *The Jonathan Ross Show* ar ITV1 (23/11/13). Mae'n cynnwys cyfweliad â Simon Pegg, prif seren y ffilm. Prif swyddogaeth y cyfweliad hwn oedd hyrwyddo rhyddhau'r ffilm ar DVD/Blu-ray yn y DU ar 30/11/13. Gwnewch nodiadau ar y cyfweliad.

Gwylio'r cyfweliad.

- Pa faterion sy'n codi o'r cyfweliad hwn ynglŷn â barn pobl am lwyddiant y ffilm?
- Pwy yw'r brif gynulleidfa ar gyfer y cyfweliad hwn?
- Pa fath o bersona sy'n cael ei bortreadu gan Pegg yma?
- Sut gallai hyn gyrraedd y gynulleidfa darged ar gyfer rhyddhau y tu allan i'r theatr?
- A yw'r gynulleidfa hon yn wahanol i'r un a welodd y ffilm yn y sinema?
- Beth yw eich barn chi am y cyfweliad hwn? Ydych chi'n credu bod rhoi hys-bys yn gweithio? Rhowch resymau dros eich penderfyniad terfynol.

# CASE STUDY: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):

## Dosbarthu 2 – Ffilm fasnachfraint Brydeinig a'r defnydd o hys-bys

## Gwaith dilynol

- Ceisiwch ddod o hyd i hys-bys arall ar gyfer *The World's End* ar-lein gyda Simon Pegg, Nick Frost neu Edgar Wright. Gwnewch nodyn o ble y daw'r cyfweliad, aseswch at bwy y mae'r cyfweliad wedi'i anelu ac a yw'n effeithiol ai peidio o ran gwerthu'r ffilm.
- Ymchwiliwch i faint o bobl sy'n ymweld â gwefan *The Guardian*. A yw'n ffordd effeithiol o roi hys-bys i ffilm?
- Beth yw ffigurau gwylwyr *The Jonathan Ross Show*? Ydych chi'n credu bod hyn yn ffordd effeithiol arall o gyrraedd cynulleidfa ar gyfer y ffilm hon ar DVD/Blu-ray?
- Ar sail eich gwaith hyd yma ar y ffilm hon, penderfynwch pa lwyfan yw'r mwyaf effeithiol ar gyfer cyrraedd cynulleidfa i hyrwyddo'r ffilm hon – teledu/ar-lein/sinema? Rhowch resymau manwl dros eich dewis.